Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bioamrywiaeth

## Briff Ymchwil

**Mai 2026**



Rhagor o wybodaeth:
**ymchwil.senedd.cymru**

**Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.**

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NS**

Tel: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bioamrywiaeth

## Briff Ymchwil

**Mai 2026**

**Awduron:**
Matthias Noebels, Sara Moran, Amandine Debus a Katy Orford.

Mae'r papur briffio hwn yn darparu cefndir i fioamrywiaeth, yn trafod sut mae'n cael ei diogelu drwy gyfreithiau a pholisïau, ac yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y mae rhanddeiliaid yn galw amdano.

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Matthias Noebels gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol ac i Amadine Debus gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a'i gwnaeth yn bosibl cwblhau'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil.

**Rhagor o wybodaeth:**
**ymchwil.senedd.cymru**

# Cynnwys


**1. Crynodeb ..... 6**

**2. Cyflwyniad ..... 8**

Beth yw bioamrywiaeth? ..... 8

Pam y mae bioamrywiaeth yn bwysig? ..... 8

Sut a pham y mae bioamrywiaeth yn dirywio? ..... 9

**3. Deddfwriaeth a pholisi bioamrywiaeth ..... 12**

Rhyngwladol ..... 12

Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal ..... 12

Cytuniadau rhyngwladol eraill ..... 14

Yr Undeb Ewropeaidd ..... 14

Y Gyfarwyddeb Adar ..... 16

Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ..... 16

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE ..... 16

Y DU ..... 18

Cydweithredu rhynglywodraethol ..... 18

Deddfwriaeth bioamrywiaeth y DU ..... 19

Polisi bioamrywiaeth y DU ..... 20

Cymru ..... 21

Deddfwriaeth bioamrywiaeth Cymru ..... 21

Polisi bioamrywiaeth Cymru ..... 24

**4. Monitro bioamrywiaeth ..... 30**

**5. Ariannu adferiad natur yng Nghymru ..... 31**

**6. Materion o bwys ar gyfer y Seithfed Senedd ..... 32**

Targedau bioamrywiaeth ..... 32

Ardaloedd gwarchodedig ..... 32

Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ..... 33

Llygredd ..... 33

Plannu coed ..... 34

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ..... 34
Swyddi gwyrdd ..... 34
Ariannu ..... 34
**Atodiad - Ardaloedd gwarchodedig ..... 36**

# 1. Crynodeb

**Beth yw'r broblem?**

Yn 2021, **cyhoeddodd y Senedd 'argyfwng natur'**. Roedd hyn yn gydnabyddiaeth o'r dirywiadau mewn bioamrywiaeth a achoswyd gan bobl. Roedd **Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023** yn tynnu sylw at y ffaith bod 18% o 3,897 o rywogaethau a aseswyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.

Daw pwysau ar fioamrywiaeth o lawer o ffynonellau, gan gynnwys newid hinsawdd, trefoli, llygredd, newid hydrolegol, rhai technegau rheoli amaethyddol a rheoli coetiroedd a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Mae gwerth cynhenid i fioamrywiaeth ac mae'n cynnig buddion i bobl drwy **'wasanaethau ecosystemau'**, megis atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Mae colli bioamrywiaeth yn achosi risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl.

**Sut y mae bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod?**

Mae gwarchod natur yn faes cymhwysedd datganoledig yng Nghymru. Mae llawer o bolisïau a deddfwriaeth ar fioamrywiaeth yn y DU, gan gynnwys Cymru, yn deillio o'r UE a rhwymedigaethau rhyngwladol, megis y **Cyfarwyddebau Natur** ac ymrwymiadau'r **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol**.

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** a **Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026** yn cynnwys amrywiol ddyletswyddau i ddiogelu bioamrywiaeth yng Nghymru. Y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur** yw strategaeth fioamrywiaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru.

**Cyfoeth Naturiol Cymru** yw'r corff cadwraeth natur statudol sy'n gyfrifol am reoli adnoddau naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

**Beth y mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn galw amdano?**

- Cyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol ystyrlon.
- Gwell dynodiad, rheolaeth a monitro o ran safleoedd gwarchodedig.
- Mesurau i reoli llygredd, yn enwedig i gyrsiau dŵr.
- Coedwigo sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fioamrywiaeth.
- Dull strategol o ymdrin â swyddi gwyrdd.
- Ariannu adferiad byd natur yn briodol drwy gyllid cyhoeddus a phreifat.

# 2. Cyflwyniad

## Mae'r adran hon yn cyflwyno beth yw bioamrywiaeth, pam ei bod yn bwysig, a pham ei bod yn dirywio.

### Beth yw bioamrywiaeth?

Rhoddir diffiniad o fioamrywiaeth, neu amrywiaeth fiolegol, yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**. sef "amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem". Defnyddir diffiniadau tebyg gan y **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol** a **Llywodraeth y DU**.

Mae'r diffiniad yn pwysleisio'r ystod o ffyrdd y mae bioamrywiaeth yn digwydd. Mae bioamrywiaeth yn ystyried amrywiolion genetig ac amrywiaeth o rywogaethau, ond hefyd mathau gwahanol o gynefinoedd.


Gan fod Cymru yn ffinio â thri pharth hinsawdd cefnforol ac oherwydd ei daeareg amrywiol a'i hinsawdd dymherus, mae ganddi'r potensial i gynnal amrywiaeth o rywogaethau. Nid yw rhai rhywogaethau, fel lili Maesyfed neu lili'r Wyddfa, **i'w canfod yn unman arall** ym Mhrydain. Mae'n anodd pennu nifer y rhywogaethau yng Nghymru, ond mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** yn amcangyfrif bod tua 50,000 o rywogaethau.

### Pam y mae bioamrywiaeth yn bwysig?

Bioamrywiaeth yw conglfaen ecosystemau ac mae'n cynnal amgylchedd naturiol iach. Mae bioamrywiaeth yn helpu'r amgylchedd i ddarparu ystod o fuddion i bobl, a ddosberthir yn aml fel '**gwasanaethau ecosystemau'**. Mae'r rhain yn amrywio o beillio ac atal llifogydd i fuddion hamdden ac iechyd (Ffigur 1).

Mae **Adolygiad 2021 Dasgupta** a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU yn asesu buddion economaidd bioamrywiaeth yn fyd-eang a'r costau economaidd a risgiau o golli bioamrywiaeth. Mae'r adolygiad yn dangos bod twf a datblygiad economaidd cynaliadwy yn gofyn am wella natur i gynyddu cyfoeth a llesiant cyfunol.

**Ffigur 1. Categorïau ac enghreifftiau o wasanaethau ecosystemau.**




***Ffynhonnell:*** *Ffigur yn seiliedig ar **Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU**.*

## Sut a pham y mae bioamrywiaeth yn dirywio?

Mae lefelau bioamrywiaeth byd-eang wedi bod yn newid erioed. **Mae gwyddonwyr wedi nodi pum digwyddiad diflannu torfol** ers i fywyd cymhleth ar y Ddaear **esblygu gyntaf 540 miliwn o flynyddoedd yn ôl**. Credir bod pob achos o ddiflannu torfol wedi arwain at o leiaf 75% o'r holl rywogaethau'n diflannu. Mae **ffosiliau a ganfuwyd yng Nghymru** yn dystiolaeth o rywogaethau a ddiflannodd gannoedd o filiynau o flynyddoedd yn ôl, i'w disodli gan eraill drwy esblygiad.

**Cred rhai gwyddonwyr** ein bod ar drothwy'r chweched diflaniad torfol yn hanes y byd, a'r cyntaf sy'n **gysylltiedig â gweithgarwch pobl**. Mae **gwaith ymchwil** yn dangos bod cyfradd gyfartalog colli rhywogaethau asgwrn cefn dros y ganrif ddiwethaf hyd at 100 gwaith yn uwch na'r cyfraddau diflannu cyn pobl.

Dadlennodd **asesiad byd-eang IPBES (2019)** ddirywiadau cyffredin, sy'n cyflymu, mewn bioamrywiaeth a systemau cynnal bywyd. Mae IPBES (Llwyfan

Polisi-Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystem) yn gorff rhynglywodraethol annibynnol sy'n cynnwys dros 130 o aelod-lywodraethau sy'n darparu asesiadau gwyddonol am fioamrywiaeth y blaned, yn ogystal â chamau i'w hadfer. Daeth astudiaeth 2019 i'r casgliad bod bioamrywiaeth dan fygythiad oherwydd trosi cynefinoedd, cynaeafu adnoddau'n ormodol, newid hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol ac effeithiau eraill. Cafodd yr asesiad gymeradwyaeth unfrydol gan y 132 o aelod-wledydd. Pwysleisiodd, oni bai bod y dirywiadau hyn yn cael eu gwrthdroi, y bydd atchweliad mewn diogelwch pobl, iechyd meddwl a chorfforol, a diogelwch bwyd a bywoliaeth yn parhau.


Daeth cydweithrediad sector amgylcheddol y DU, ar ffurf **adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023**, a'r **adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** Cyfoeth Naturiol Cymru i'r casgliad bod pwysau ar fioamrywiaeth yng Nghymru yn deillio o rai arferion amaethyddol a rheoli coetiroedd, trefoli, llygredd, newid hydrolegol, gor-ecsbloetio, rhywogaethau estron ymledol a newid hinsawdd.

**Ffigur 2. Rhywogaethau yng Nghymru sydd mewn perygl o ddiflannu – tegeirian y fign galchog, llygoden bengron y dŵr a madfall y tywod**



Mae **Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023** yn cyflwyno asesiadau o'r perygl y bydd 3,897 o rywogaethau ar draws sawl grŵp tacsonomig yn diflannu yng Nghymru. O'r rhain, mae 663 (18%) mewn perygl o ddiflannu o Gymru, ac mae 95 arall (2%) wedi diflannu eisoes (Ffigur 3).

### Ffigur 3. Rhywogaethau yng Nghymru sydd dan fygythiad o ddiflannu




***Ffynhonnell:*** *Sefyllfa Byd Natur 2023, **Adroddiad Cymru** (gan ddefnyddio **Asesiadau Rhestr Goch yr IUCN** sy'n benodol i Gymru) yn dangos rhywogaethau a aseswyd mewn categorïau 'Rhestr Goch', yn ôl grŵp tacsonomegol eang. Y rhifau mewn cromfachau yw nifer yr asesiadau. 'Dan Fygythiad' = meini prawf Rhestr Goch IUCN 'Mewn perygl difrifol', 'Mewn perygl' neu 'Agored i niwed'. Mae 'diflannu' yn ymwneud â 'diflannu modern' h.y. rhywogaethau a ddisgrifir gan wyddoniaeth yn hytrach na phob diflaniad yn hanes y Ddaear.*

Mae **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025** Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer polisi bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, yn dod i'r casgliad bod **gwydnwch ecosystemau** yn parhau i fod yn isel ar draws y rhan fwyaf o gynefinoedd, gan gynnwys ecosystemau daearol, dŵr croyw a morol.

Mae Cymru yn safle 224 o blith y 240 o wledydd sydd ar y **Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth**, sy'n golygu ei bod ymhlith y 10% isaf.

Yn 2021, **datganodd y Senedd 'argyfwng natur'** er mwyn cydnabod y dirywiad mewn bioamrywiaeth a achoswyd gan bobl.

# 3. Deddfwriaeth a pholisi bioamrywiaeth

Mae'r rhan fwyaf o ddeddfau a pholisïau ar fioamrywiaeth yng Nghymru a'r DU yn deillio o gyfraith yr UE a chyfraith ryngwladol, megis Cyfarwyddebau Natur yr UE a Chonfensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol y Cenhedloedd Unedig. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r cytuniadau rhyngwladol, polisïau a chyfreithiau bioamrywiaeth yr UE, y DU a Chymru.

## Rhyngwladol

### Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal


Cafodd **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal** y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ei **fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2022** yng nghynhadledd bioamrywiaeth COP15 y Cenhedloedd Unedig. Nod y Fframwaith yw atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 a chyflawni adferiad erbyn 2050 (Ffigur 4). Mae hyn yn golygu, erbyn 2030 y dylai bioamrywiaeth fod yn cynyddu, ac **erbyn 2050** caiff bioamrywiaeth ei gwerthfawrogi, ei gwarchod, ei hadfer, ei defnyddio'n ddoeth, gan gynnal gwasanaethau ecosystem, planed iach a sicrhau manteision hanfodol i bawb. Mae'n cynnwys pedwar nod a 23 o dargedau i'w cyflawni erbyn 2030.

**Mae'r rhain yn cynnwys targedau** i:

- Ddiogelu ecosystemau (targedau 2 a 3) a rhywogaethau (targedau 4, 5 a 6);
- Mynd i'r afael â llygredd (targed 7); a
- Pharchu hawliau pobl frodorol a chymunedau lleol (nod C ac wedi'i gynnwys mewn 7 targed).

Mae **Targed 3**, a elwir hefyd yn '30x30', yn agwedd proffil uchel ar gytundeb COP15, sy'n anelu at sicrhau erbyn 2030 bod o leiaf 30% o dir, dŵr croyw a'r môr yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n effeithiol.

**Ffigur 4. Y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang**





***Ffynhonell:*** *wedi'i addasu o* ***naturepositive.org***

Mae'r DU yn rhan o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a, gan fod bioamrywiaeth yn faes datganoledig, mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae. Mewn ymateb i'r ymrwymiad 30x30 a chyn COP15, lansiodd Llywodraeth Cymru **Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth**, a ddaeth i ben ym mis Hydref 2022. Nododd **grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr themâu ac argymhellion allweddol** ar gyfer camau gweithredu i gefnogi'r targed 30x30.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **fframwaith ar gyfer 30x30** yn 2025, gan gynnwys meini prawf ar gyfer pa ardaloedd y gellid eu cynnwys yn 30x30.

Roedd **adroddiad cynnydd ledled y DU 2025** y sector amgylcheddol yn awgrymu mai dim ond 2.14% o dir Cymru sy'n bodloni'r meini prawf 30x30 (Ffigur 5). Nid oedd digon o ddata i asesu cynnydd yn yr amgylchedd morol.

### Ffigur 5. Cynnydd tuag at y targed 30x30 ar dir ledled y DU




***Ffynhonnell:*** *30x30, Adroddiad Cynnydd y DU ar gyfer 2025, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad*

## Cytuniadau rhyngwladol eraill

Mae bioamrywiaeth yn destun nifer o gytuniadau bioamrywiaeth rhyngwladol eraill. Rhestrir rhai enghreifftiau isod.

- Nod **Confensiwn Bern 1979 ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop** ('Confensiwn Bern') yw gwarchod fflora, ffawna a chynefinoedd, hyrwyddo cydweithrediad, a thynnu sylw at rywogaethau sydd mewn perygl ac sy'n agored i niwed. Mae'n ofynnol i bartïon hyrwyddo polisïau a mesurau gwarchod cenedlaethol rhag llygredd. Yn y DU, gweithredir Confensiwn Bern gan **Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** (a nodir isod).
- Nod **Confensiwn 1979 ar Warchod Rhywogaethau Mudol o Anifeiliaid Gwyllt** ('Confensiwn Bonn') yw gwarchod anifeiliaid mudol,

gan gynnwys rhywogaethau'r tir, dyfrol ac adarol, a hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o'u cynefinoedd. Yn y DU, gweithredir Confensiwn Bonn gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**.

- Nod **Confensiwn 1971 ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn Enwedig fel Cynefin Adar Dŵr** ('Confensiwn Ramsar') yw gwarchod gwlyptiroedd, gan hyrwyddo eu defnydd cynaliadwy, yn ogystal â chydweithrediad rhyngwladol. Nid oes deddfwriaeth bwrpasol ar gyfer safleoedd Ramsar yn y DU, ond maent hefyd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae llawer o safleoedd Ramsar yn gorgyffwrdd ag **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** (ACA) ac **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** (AGA).

- Mabwysiadwyd **y Cytundeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol Ardaloedd y tu hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol** (Mabwysiadwyd y 'Cytuniad Bioamrywiaeth y Tu Hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol (BBNJ)' neu 'Gytundeb y Moroedd Uchel') ym mis Mehefin 2023. Mae'n cynnwys mesurau rhwymol a gwirfoddol i fynd i'r afael â diraddio ecosystemau'r cefnforoedd mewn ardaloedd y tu hwnt i awdurdodaeth genedlaethol (h.y. y moroedd uchel).

## Yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r UE wedi pasio dwy Gyfarwyddeb bwysig sy'n ymdrin â bioamrywiaeth, **y Gyfarwyddeb Adar** (ar warchod adar gwyllt) a'r **Gyfarwyddeb Cynefinoedd** (ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt). Dyma'r 'Cyfarwyddebau Natur' gyda'i gilydd.

Er bod y Cyfarwyddebau Natur **yn gymwys yn ddomestig drwy gyfraith yr UE a ddargedwir** yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU ddisodli neu ddiddymu'r ddeddfwriaeth hon mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys drwy **Gyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023**. Mae rhai o bwerau'r Ddeddf i ailddatgan/atgynhyrchu neu ddirymu/disodli cyfraith yr UE a ddargedwir yn dod i ben ar 23 Mehefin 2026.

Gweithredir y Cyfarwyddebau Natur yn y DU drwy offerynnau amrywiol fel y nodir isod (yr adran 'deddfwriaeth bioamrywiaeth y DU').

## Y Gyfarwyddeb Adar

Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb Adar ym 1979 i gydnabod mai colli cynefinoedd a'u dirywiad yw'r bygythiad mwyaf difrifol i adar gwyllt. Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn gwarchod, gyda rhai eithriadau, yr holl adar gwyllt naturiol, ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â'u hwyau, eu nythod a'u cynefinoedd. Mae'n gwahardd gweithredoedd megis lladd neu ddinistrio bwriadol (Erthygl 1). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE ddynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer diogelu adar mudol (Erthygl 2) a 194 o rywogaethau adar eraill a restrir yn Atodiad I o'r Gyfarwyddeb (Erthygl 4).

## Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd

Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ym 1992 i sicrhau adfer neu gynnal cynefinoedd naturiol a rhywogaethau o ddiddordeb ar statws cadwraeth ffafriol.

Mae Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ar gyfer diogelu dros 1,000 o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion, yn ogystal â 200 o gynefinoedd. Nid yw'r Gyfarwyddeb wedi'i chyfyngu i rywogaethau sydd mewn perygl o ddiflannu. Ei nod yw gwarchod rhywogaethau sydd mewn perygl, sy'n agored i niwed neu'n brin, a chynefinoedd sydd mewn perygl o ddiflannu, sydd ag ystod naturiol fach neu'n enghreifftiau eithriadol o ranbarthau daearyddol nodweddiadol.

Sefydlodd Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd **rwydwaith Natura 2000**, sy'n cynnwys rhanbarthau bioddaearyddol sy'n cynnwys pob ACA ac AGA. Ers ymadael â'r UE, mae'r DU wedi disodli Natura 2000 gyda **Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol** y DU (a nodir isod).

## Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

Cytunodd y DU a'r UE ar delerau eu perthynas ar ôl Brexit yn y **Cytundeb Masnach a Chydweithredu.**

Mae'r Cytundeb yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r hinsawdd. Mae'r ddau fater yn rhan o'r darpariaethau **'tegwch yn y farchnad'**, sy'n ceisio sicrhau cystadleuaeth deg rhwng y DU a'r UE mewn modd sy'n ffafriol i ddatblygu cynaliadwy.

Rhestrir 'gwarchod natur a bioamrywiaeth' yn benodol yn y darpariaethau hyn. Maent yn cynnwys dyletswydd dim atchweliad i beidio â gwanhau na gostwng

y lefelau diogelu a oedd ar waith ar 31 Rhagfyr 2020 mewn ffordd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddiad rhwng y DU a'r UE. Maent hefyd yn caniatáu i'r DU a'r UE ddefnyddio mesurau ailgydbwyso os yw eu lefelau diogelu yn y dyfodol yn ymrannu.

Yn ogystal â'r darpariaethau tegwch yn y farchnad, mae ystyriaethau bioamrywiaeth yn dod o dan **ddarpariaethau eraill ar gydweithrediad amgylcheddol**. Er enghraifft, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn nodi'r sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE yn Erthyglau 763-770, sy'n berthnasol iddo a chytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae dwy ddarpariaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd a hinsawdd:

- y frwydr yn erbyn newid hinsawdd; a
- chydweithredu byd-eang ar faterion o ddiddordeb economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a rennir.

Ystyrir bod y 'frwydr yn erbyn newid hinsawdd' hefyd yn 'elfen hanfodol' o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (Erthygl 764). Mae gan elfennau hanfodol statws uwch yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu oherwydd gall achos o dorri arwain at derfynu'r cytundeb.

Mae darpariaethau masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys ymrwymiadau i ystyried datblygu cynaliadwy. Gosodir dyletswyddau ar y DU a'r UE mewn nifer o adrannau sydd â ffocws ar fasnach a meysydd amgylcheddol penodol, megis newid hinsawdd, amrywiaeth fiolegol, coedwigoedd ac adnoddau biolegol morol a dyframaethu.

Ym mis Medi 2025, cyhoeddodd pedwar pwyllgor yn y Senedd **adroddiad ar y cyd** ar bedair blynedd gyntaf Cymru o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Ailadroddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei farn bod Brexit wedi arwain at **fwlch llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru** a chyfeiriodd at **Fil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)** (a nodir isod) fel ffordd o fynd i'r afael â hyn.

Er nad oedd yn mynd i'r afael â bioamrywiaeth yn benodol, dywedodd y Pwyllgor fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn "newid sylweddol" oherwydd nad yw'n cynnwys pennod bwrpasol ar gydweithrediad yr amgylchedd a'r hinsawdd. Yn lle hynny, mae'r Cytundeb yn canolbwyntio ar yr amgylchedd yng nghyd-destun masnach. Dogfennodd y Pwyllgor dystiolaeth a ddaeth i law yn galw am aliniad yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE ar faterion

cysylltiedig, fel datgoedwigo, ac am botensial cytundebau newydd rhwng y DU a'r UE ar yr amgylchedd a'r hinsawdd. Daeth i’r casgliad a ganlyn:

> *Ry’n ni’n nodi bod y Cytundeb wedi newid natur cydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd ar yr amgylchedd yn sylfaenol, gan symud i ffwrdd o fframwaith llywodraethiant ar y cyd i un sy'n cael ei ategu'n bennaf gan fuddiannau economaidd. Er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys rhai darpariaethau amgylcheddol lefel uchel, mae'r rhain i raddau helaeth yn adlewyrchu’r ymrwymiadau rhyngwladol presennol fel Cytundeb Paris. At hynny, nid yw’r darpariaethau tegwch yn y farchnad a’r ymrwymiadau dim atchwelyd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn disodli cydweithredu amgylcheddol fel dan aelodaeth o'r UE.*

## Y DU

Er bod gwarchod natur yn fater sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae Llywodraeth y DU yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol a'r DU sy'n rhan o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

### Cydweithredu rhynglywodraethol

Mae Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn cydweithredu yng Ngrŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad er mwyn bodloni ymrwymiadau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol.

Ar ôl ymadael â’r UE, mae gwledydd y DU hefyd yn ceisio cydgysylltu camau gweithredu drwy **Fframweithiau Cyffredin** a chyfarfodydd rhynglywodraethol rheolaidd fel rhan o'r **strwythurau rhynglywodraethol ffurfiol**.

Cafodd y **Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur** ei sefydlu o dan **Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** a’i ailgyfansoddi o dan **Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006**. Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yw'r corff cyhoeddus sy'n cynghori Llywodraeth y DU a’r llywodraethau datganoledig ar warchod natur ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae’r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff cadwraeth natur statudol y gwledydd, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cymru.

## Deddfwriaeth bioamrywiaeth y DU

Isod ceir y prif gyfreithiau sy'n ymdrin â bioamrywiaeth yn y DU, ac sy’n berthnasol i Gymru.

### Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

**Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** (fel y’i diwygiwyd) yw'r ddeddfwriaeth allweddol ar gyfer diogelu anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd yn y DU. Mae'n gweithredu Cyfarwyddeb Adar yr UE, gan ddarparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

Mae Deddf 1981 yn gwahardd (gydag eithriadau) y canlynol:

- lladd, anafu neu gymryd anifeiliaid gwyllt rhestredig yn fwriadol;
- casglu, dadwreiddio neu ddinistrio planhigion gwyllt rhestredig yn fwriadol;
- cyflwyno rhywogaethau gwyllt anfrodorol, sef anifeiliaid a phlanhigion, i'r gwyllt; a
- meddu ar rywogaethau goresgynnol.

Mae Deddf 1981 yn deddfu ar gyfer:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
- Gwarchodfeydd natur cenedlaethol; a
- Gwarchodfeydd natur morol.

Yn gyffredinol, Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n gyfrifol am ddynodi'r ardaloedd gwarchodedig hyn yng Nghymru.

### Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

**Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017** yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ar Gynefinoedd a rhannau o Gyfarwyddeb Adar yr UE yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cynefinoedd ar y tir a’r glannau.

### Rheoliadau ar gyfer alltraeth

Ar gyfer ardaloedd morol alltraeth, caiff y Cyfarwyddebau Natur eu gweithredu drwy **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017** a **Rheoliadau Gweithgareddau Petrolewm Alltraeth (Cadwraeth a Chynefinoedd) 2001**.

### Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Mae Deddf 1981, Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2001 wedi'u diwygio gan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** er mwyn eu cadw'n weithredadwy ar ôl ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2019 yn disodli rhwydwaith Natura 2000 drwy Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol newydd y DU. Mae **Memorandwm Esboniadol** Rheoliadau 2019 yn nodi'r canlynol:

> *The intention is to ensure habitat and species protection and standards as set out under the Nature Directives are implemented in the same way or an equivalent way when the UK exits the EU. There is no change to policy.*

### Deddfwriaeth bellach y DU

Mae deddfwriaeth bellach y DU ar fioamrywiaeth, sy'n berthnasol i Gymru, yn cynnwys:

- **Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949**;
- **Deddf Pysgodfeydd 2020**;
- **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009**; a
- **Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019**.

### Polisi bioamrywiaeth y DU

Yn 2021, cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ynghyd â Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon, **Natur Bositif 2030**, sy'n cynnwys dau adroddiad: **Adroddiad Cryno** ac **Adroddiad Tystiolaeth**. Mae'r adroddiadau hyn yn

disgrifio sut y gall y DU gyflawni ei hymrwymiadau i **Addewid yr Arweinwyr dros Natur**, a lansiwyd yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2020 i wrthdroi colli bioamrywiaeth erbyn 2030.

Yn y cyfnod cyn COP15 yn 2022, cyhoeddodd Cyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU ddatganiad ar y cyd, sef **Adferiad Natur ar gyfer Ein Goroesiad, ein Ffyniant a'n Lles**, a oedd yn adeiladu ar Natur Bositif 2030 ac yn atgyfnerthu'r angen am weithredu.

Yn 2025, cyhoeddodd pedair llywodraeth y DU **Strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth cenedlaethol y DU ar gyfer 2030**. Mae'r Strategaeth yn ymrwymo'r DU i gyflawni pob un o'r 23 o dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

Cyflwynodd y DU gyfres o 23 o Dargedau Cenedlaethol i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ym mis Awst 2024. Mae'r rhain yn eistedd ochr yn ochr â Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol y DU, ac yn cynnwys is-set o ymrwymiadau ar lefel gwlad i ddangos y camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn y DU. Mae'r rhain ar gael yn gyhoeddus ar **Adnodd Adrodd Ar-lein y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.**

## Cymru

### Deddfwriaeth bioamrywiaeth Cymru

#### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Diben Rhan 1 **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** (Deddf 2016) yw hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth i hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau hon yn cynnwys bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynlluniau sy'n nodi eu camau gweithredu arfaethedig i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, ac **adrodd ar eu cynnydd** bob tair blynedd. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hychwanegu gan **Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026** (a nodir isod).

Mae adran 7 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella **organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf** ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

At hynny, mae Deddf 2016 yn sefydlu fframwaith o adroddiadau/polisïau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

- Bob pum mlynedd, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, sy'n darparu'r sail dystiolaeth ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, ac yn ystyried tueddiadau sy'n effeithio ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. **SoNaRR 2025** yw'r cyhoeddiad diweddaraf.
- Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a rhoi polisi adnoddau naturiol cenedlaethol ar waith, gan nodi blaenoriaethau allweddol, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rhaid adolygu'r polisi ar ôl pob etholiad cyffredinol. Cyhoeddwyd y **Polisi Adnoddau Naturiol** cyntaf yn 2017, ac fe'i hadolygwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2026, ar ddiwedd tymor y llywodraeth. **Bwriad Llywodraeth flaenorol Cymru** oedd i Bolisi Adnoddau Naturiol diwygiedig gael ei gyhoeddi yn ystod y Seithfed Senedd.
- Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi **datganiadau ardal**, sy'n adroddiadau adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar leoedd, yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau naturiol mewn ardal, yn esbonio sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi'u cymhwyso, ac yn ymdrin â blaenoriaethau, risgiau neu bryderon.

Mae Deddf 2016 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth megis targedau newid hinsawdd, gwastraff, pysgodfeydd a thrwyddedu morol.

Mae Ymchwil y Senedd wedi **llunio canllaw** gyda mwy o fanylion am ofynion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn Neddf 2016 (er y nodir bod rhai agweddau wedi'u hehangu gan **Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026** (a nodir isod)).

### Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) 2026

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) 2026** (Deddf 2026) yn cyflwyno:

- amcan amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol i atgyfnerthu gwneud penderfyniadau (Rhan 1);

- pwerau i sefydlu corff statudol, sef 'Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru', a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol (Rhan 2); a
- fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth (Rhan 3).

Cyflwynir y targedau bioamrywiaeth drwy reoliadau yn y meysydd blaenoriaeth a ganlyn:

> *(a) lleihau'r risg o rywogaethau brodorol yn diflannu;*
>
> *(b) rheoli ecosystemau yn effeithiol;*
>
> *(c) lleihau llygredd; ac*
>
> *(d) ansawdd y dystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno, a'i defnyddio a'i chymhwyso.*

Rhaid cyflwyno'r rheoliadau erbyn mis Ebrill 2028.

Mae Rhan 3 o Ddeddf 2026 hefyd yn ychwanegu at ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau Adran 6 o Ddeddf 2016, gan gynnwys alinio'r ddyletswydd â'r targedau bioamrywiaeth.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf 2015) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu fel bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae Deddf 2015 yn diffinio saith nod llesiant. Mae'r nod "Cymru gydnerth" yn cydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth ar gyfer llesiant:

> *Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*

Mae Deddf 2015 yn gwneud **dangosyddion llesiant cenedlaethol** yn ofynnol i fesur y cynnydd tuag at hyn a nodau llesiant eraill a ddiffinnir yn y Ddeddf. Mae

dangosyddion 43 ('Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru') a 44 ('Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru') yn ystyried bioamrywiaeth yn benodol.

### Deddfwriaeth berthnasol arall

Mae darnau eraill o ddeddfwriaeth yn ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru drwy fynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi colli bioamrywiaeth. Mae rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys isod.

- Mae **Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023** yn gwahardd gwerthu neu gyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol yng Nghymru. Eitemau plastig untro yw prif ffynhonnell sbwriel y cefnfor, sy’n bygwth bioamrywiaeth, yn enwedig cynefinoedd morol. Mae **papur briffio arall gan Ymchwil y Senedd** yn darparu rhagor o wybodaeth.
- Mae **Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021** yn cynnwys mesurau rheoleiddio i fynd i'r afael â llygredd dyfrffyrdd, sy'n berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli lledaeniad gwrtaith nitrogen a storio slyri.
- Mae **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** yn cyflwyno'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n sail i gefnogaeth i ffermydd. Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw: cynhyrchu bwyd cynaliadwy; lliniaru ac addasu i newid hinsawdd; gwella gwydnwch ecosystemau; a gwarchod adnoddau diwylliannol cefn gwlad, hyrwyddo mynediad y cyhoedd a'r Gymraeg.
- Nod **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** yw cefnogi datblygu cynaliadwy drwy'r broses gynllunio.
- Nod **Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024** yw gwella ansawdd aer yng Nghymru a gwneud darpariaeth ar gyfer strategaethau cenedlaethol.

## Polisi bioamrywiaeth Cymru

Mae llawer o bolisïau Llywodraeth Cymru yn effeithio ar fioamrywiaeth ac roedd gan Lywodraeth flaenorol Cymru **uchelgais i integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth** ar draws y llywodraeth. Dyma rai enghreifftiau isod.

### Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur** yw strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n anelu at fynd i'r afael ag

ymrwymiadau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol mewn modd domestig. **Bwriad Llywodraeth flaenorol Cymru oedd** y bydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur wedi'i ddiweddaru yn cael ei gydgrynhoi â chynllun bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru o dan Adran 6 o Ddeddf 2016 (wedi'i ehangu gan Ddeddf 2026).

### Ardaloedd gwarchodedig

Mae nifer o ddynodiadau i ddiogelu ardaloedd ar gyfer natur (a nodir yn yr **Atodiad** i'r papur briffio hwn). Fel y trafodwyd, mae'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Nod **Rhaglen Rhwydweithiau Natur** Llywodraeth flaenorol Cymru yw cryfhau'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y **Gronfa Rhwydweithiau Natur** lle mae grantiau'n cael eu dyfarnu ar gyfer **prosiectau** sy'n gwella cyflwr safleoedd gwarchodedig, a'r cysylltedd rhyngddynt.

Mae polisïau Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddiogelu bioamrywiaeth mewn tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol) fel **Ffermio Bro** sy'n ceisio cefnogi ffermwyr i gyflawni'r targed 30x30. Mae gan dirweddau dynodedig amddiffyniadau arbennig mewn polisi cynllunio cenedlaethol (gweler **Polisi Cynllunio Cymru**).

### Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill Ar Sail Ardal

Mae Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill Ar Sail Ardal (OECM) yn ardaloedd sydd â photensial cadwraeth y tu allan i safleoedd gwarchodedig statudol a **gallant gyfrannu at 30x30**. Yn bwysig, **fel yr amlyga Llywodraeth flaenorol Cymru**, mae statws OECM yn gydnabyddiaeth, nid yn rheoliad. Nid yw'r statws yn gorfodi gofynion rheoli ychwanegol ar gyfer tirfeddianwyr. Yn hytrach, mae'n cydnabod lle mae canlyniadau cadwraeth eisoes yn cael eu cyflawni drwy ddulliau llywodraethu a rheoli presennol. Mae **rhaglen o adnabod mesurau OECM** yn mynd rhagddo, a byddant yn cael eu hadnabod fel safleoedd '**Naturfa**' yng Nghymru.

### Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Gelwir amddiffyniadau yn yr amgylchedd morol ar y cyd yn Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMGau), ac maent yn cynnwys ACAau, AGAau a Pharthau Cadwraeth Morol, ymhlith eraill (**gweler yr Atodiad**). Mae **Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru ar gyfer 2018-2023** yn disgrifio'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, sut mae'n cael ei reoli, a

ffyrdd o wella ei reolaeth a'i gyflwr. Mae'r fframwaith yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau rheolaeth effeithiol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ond bod gan 'awdurdodau rheoli' (sefydliadau sydd â chyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag unrhyw fath o Ardal Morol Gwarchodedig) gyfrifoldeb dros gyflawni mesurau rheoli. Nod y **Cynllun Gweithredu blynyddol ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig** yw ategu'r fframwaith drwy bennu camau gweithredu â blaenoriaeth i wella rheolaeth a chyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Nid yw'r fframwaith a'r cynllun gweithredu wedi cael eu diweddaru ers dod i ben yn 2023.

### Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Nod y **rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** a ddechreuodd yn gynnar yn 2020, yw helpu cymunedau sydd â lefelau amddifadedd uchel ac nad oes ganddynt lawer o fynediad at natur i adfer a gwella natur yn eu hardaloedd lleol. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi prosiectau ar raddfa fach a gynhelir gan awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol. Mae **enghreifftiau'n cynnwys** creu mannau gwyrdd, perllannau cymunedol, a phrosiectau tyfu; newidiadau mewn arferion torri gwair; a phlannu coed.

### Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

Nod y **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd** yw adfer mawndiroedd yng Nghymru er mwyn adfer ecosystemau, rheoleiddio dŵr, a storio a dal carbon. Caiff y rhaglen ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chydgysylltu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Natur am Byth

Mae **Natur am Byth** yn anelu at ddiogelu rhywogaethau sydd mewn perygl yng Nghymru ac ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo cadwraeth natur. Arweinir y rhaglen hon gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn partneriaeth â naw elusen amgylcheddol.

### Partneriaethau Natur Lleol

Mae **Partneriaethau Natur Lleol** wedi'u sefydlu ledled Cymru, ac wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru i:

- ddarparu cyngor ar fioamrywiaeth;
- gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu a chydweithrediadau;
- grymuso grwpiau cymunedol i gymryd camau gweithredu; a
- thargedu gweithgareddau ymgysylltu cymunedol drwy dynnu ar eu setiau sgiliau a sgiliau Partneriaethau Natur Lleol.

### Plannu coed

Mae **strategaeth Coetiroedd i Gymru** Llywodraeth Cymru (a gafodd ei chyhoeddi gyntaf yn 2009 a'i diweddaru yn 2018) yn cydnabod y gall coetiroedd wneud cyfraniadau sylweddol i fioamrywiaeth ac ecosystemau iach.

Mae targedau plannu coed wedi newid dros amser, ac mae cyfraddau plannu coed wedi bod **ymhell islaw'r targed** am nifer o flynyddoedd. Yn 2021, gosododd Llywodraeth Cymru darged o **43,000 hectar o goetiroedd newydd wedi'u plannu erbyn 2030**, i fodloni **Argymhelliad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC) 2020**. Yn fwy diweddar (2025), argymhellodd yr UKCCC darged plannu coed is o 22,000 hectar o goetiroedd wedi'u plannu erbyn 2030 fel rhan o'r **uchelgais llwybr cytbwys** wedi'i ddiweddaru. Fodd bynnag, awgrymodd darged mwy uchelgeisiol o 208,000 hectar ar gyfer 2050.

Arweiniodd **archwiliad dwfn i goed a phren** yn 2021 at nifer o **argymhellion** ynghylch coedwigo i gyflawni amcanion strategaeth Coetiroedd i Gymru. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd y **Strategaeth Ddiwydiannol Pren** yn 2025.

Mae'r **Goedwig Genedlaethol** yn brosiect hirdymor gan Lywodraeth Cymru **a lansiwyd ym mis Mawrth 2020**. Mae'n cynnwys **creu coetiroedd newydd** ac uwchraddio coetiroedd presennol i fodloni safonau coedwigaeth y DU a **Chanlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru**. Nod y Goedwig Genedlaethol yw gwella bioamrywiaeth drwy ddarparu: cynefinoedd i fywyd gwyllt, dal carbon i liniaru newid hinsawdd; a'r buddion ar gyfer datblygu gwledig, yr economi a hamdden. Lansiwyd **Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru** ym mis Mehefin 2023.

**Ffigur 6: Coedwig Niwbwrch ar arfordir Ynys Môn**



## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** yw polisi cymorth amaethyddol Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cymhellion i gamau gweithredu i gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy - gan gynnwys cydnerthedd ecosystemau (a nodir uchod).

Mae'n ofynnol i bawb sy'n ymuno â'r cynllun ymgymryd â'r **camau gweithredu 'Cyffredinol'** i gael y Taliad Gwaelodlin Cynhwysol, gan gynnwys **Taliad Gwerth Cymdeithasol**. Bydd camau gweithredu **'Dewisol'** a **'Chydweithredol'**, nad ydynt yn orfodol ac y disgwylir iddynt gyflawni canlyniadau mwy uchelgeisiol, ar gael am daliad ychwanegol.

Mae **gofyniad cynllun** i gael 10% o gynefin ar bob fferm. Er nad yw plannu coed yn rheol cynllun nac yn weithred Gyffredinol, **uchelgais Llywodraeth flaenorol Cymru** oedd i o leiaf 17,000 hectar o goed newydd gael eu plannu o dan gymhellion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy erbyn 2030.

### Budd net i fioamrywiaeth mewn polisi cynllunio

Y dull Budd Net i Fioamrywiaeth (ym **Mholisi Cynllunio Cymru**) yw y dylai datblygiad adael bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau mewn “cyflwr sylweddol well nag yr oedd cynt”. Mae hyn drwy sicrhau budd ar unwaith ac hirdymor, mesuradwy a dangosadwy, yn bennaf ar y safle neu'n union gerllaw. Mae dull 'cam wrth gam' wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru.

### Adferiad natur ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd strategol

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru **Lwybr Newydd i Natur – Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol** ym mis Hydref 2023. Roedd hyn o ganlyniad i Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth flaenorol Cymru a COP15. Mae'n cydnabod bod y rhwydwaith ffyrdd yn cynnig cyfle i wella cysylltedd cynefinoedd ar draws y dirwedd drwy wrychoedd ar ochr y ffordd, glaswelltiroedd a choetiroedd.

# 4. Monitro bioamrywiaeth

## Mae nifer o bartneriaid yn cynnal gwaith monitro bioamrywiaeth i ddeall tueddiadau mewn rhywogaethau a chynefinoedd, a'r ffactorau sy'n sbarduno newid. Mae monitro bioamrywiaeth hefyd yn fecanwaith i ymgysylltu â dinasyddion i hyrwyddo gwerthfawrogiad y cyhoedd o natur.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am fonitro cyflwr y nodweddion yn y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig drwy **Fonitro Safonau Cyffredin** y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn modelu ac yn monitro effaith amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd rhai o'i pholisïau drwy **Raglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd**, a arweiniwr gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU. Mae'n casglu data ar draws tirwedd Cymru ac yn cysylltu newidiadau ag effeithiau dilynol, megis canlyniadau economaidd.

Mae rhaglenni monitro ledled y DU yn cael eu rhedeg ar sail wirfoddol, yn enwedig ar gyfer ystlumod, adar, gloÿnnod byw, planhigion a pheillwyr, ac **mae gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur rôl** wrth gasglu'r wybodaeth hon. Mae'r Pwyllgor hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu **Rhaglen Monitro Bioamrywiaeth Forol y DU**.

Mae monitro safleoedd gwarchodedig yn yr amgylchedd morol wedi'i nodi fel maes sydd angen mwy o adnoddau, oherwydd mae diffyg data **wedi'i gwneud yn anodd** asesu cynnydd tuag at 30x30 mewn modd cywir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal **asesiad** o anghenion tystiolaeth.

Mae'r adroddiad cydweithredol **Natur Bositif 2030** gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a phedwar corff cadwraeth natur statudol y DU yn tynnu sylw at argaeledd gwyddoniaeth a thechnoleg dinasyddion fel **synhwyro o bell** a geneteg i wella monitro bioamrywiaeth.

# 5. Ariannu adferiad natur yng Nghymru

## Yn ogystal â chyllid gan y llywodraeth ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth, mae refeniw preifat ar gyfer buddsoddi mewn natur yn cael mwy o ffocws.

Mae cyllid ar gyfer natur wedi'i ddarparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth flaenorol Cymru drwy amrywiaeth o raglenni a chynlluniau ar draws nifer o feysydd polisi fel y nodir uchod, megis y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a Natur am Byth.

Yn dilyn y Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth yn 2022, **ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru**, yn y tymor hwy, i "[g]ynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn adfer natur drwy sicrhau bod yr ymateb i'r argyfwng natur wedi'i integreiddio ar draws adrannau'r llywodraeth".

Roedd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Chweched Senedd yn **argymell** y dylai'r "llywodraeth ystyried cynyddu dyraniadau ar gyfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfwng natur" yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2026-27.

Mae **Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2020-21** Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i wireddu a chynyddu buddsoddiad preifat i gefnogi adferiad byd natur. Ategodd yr Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth hyn, gan ymrwymo Llywodraeth Cymru i gymryd camau i "[r]yddhau cyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy".

Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy Drafft**, gyda'r nod o lywio buddsoddiad preifat ym myd natur. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau bod cyllid "yn gywir, o fudd ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol, yn atal newid defnydd tir yn amhriodol ac yn osgoi gwyrddolchi".

# 6. Materion o bwys ar gyfer y Seithfed Senedd

Mae'r adran hon yn archwilio'n fyr rai o'r materion o bwys a allai godi yn ystod y Seithfed Senedd, yn seiliedig ar gwestiynau gan randdeiliaid.

Cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Chweched Senedd ymchwiliad yn archwilio rhai o'r materion hyn, gan argymell gwahanol gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

## Targedau bioamrywiaeth

Mae rhanddeiliaid yn galw am flaenoriaeth i gyflwyno targedau bioamrywiaeth ystyrlon ac amserol drwy reoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026.

Mae **RSPB Cymru** yn chwilio am dargedau lluosog i'w gosod ar gyfer pob maes blaenoriaeth, ac mae **nifer o randdeiliaid** wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y broses o osod targedau. Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru wedi pwysleisio** bod yn rhaid i'r targedau bioamrywiaeth statudol "fod yn fesuradwy, glynu at amserlen, ac wedi'u hymgorffori ar draws sectorau" a bod yn rhaid i adroddiadau yn y dyfodol ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ddangos yr hyn sydd wedi'i gyflawni.

## Ardaloedd gwarchodedig

**Dywed arbenigwyr,** er mwyn cyrraedd y targed 30x30, rhaid i safleoedd sy'n cael eu diogelu er mwyn natur fod yn well, yn fwy, ac wedi'u cysylltu'n fwy effeithiol, ac roedd argymhelliad penodol o'r Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth yn cynnwys cam gweithredu i:

> *Sicrhau bod safleoedd gwarchodedig (rheoli, monitro, dynodi), tir a môr, yn flaenoriaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy strategaethau*

*corfforaethol a strategaethau ar gyfer y dyfodol a darparu cyllid digonol.*

Mae **Adroddiad Archwilio Cymru** wedi tynnu sylw at gamau cyfyngedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddynodi Safleoedd SoDdGA ers hynny.

Bydd **pwysau ar y llywodraeth newydd** i wella amddiffyniadau morol drwy wella dynodiad, rheolaeth a monitro, gan gynnwys **dynodiad Parth Cadwraeth Morol newydd**.

**Mae RSPB Cymru yn galw am** ddiwygio Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 i sicrhau bod dibenion statudol, dyletswyddau a threfniadau llywodraethu'r tirweddau dynodedig hyn yn gwneud mwy dros fioamrywiaeth.

## Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

Mae rhanddeiliaid yn galw am sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW) newydd fel blaenoriaeth i lenwi'r 'bwlch llywodraethu amgylcheddol' ac iddi fod yn **annibynnol ac wedi'i hariannu'n briodol** i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 yn ei gwneud yn ofynnol i'r OEGW gael ei sefydlu a bod yn weithredol erbyn mis Ebrill 2028.

## Llygredd

Mae mynd i'r afael â llygredd mewn cyrsiau dŵr, gan gynnwys o **amaethyddiaeth** a **charthffosiaeth** wedi bod yn faterion proffil uchel.

Yn 2025 roedd **adolygiad statudol o Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol** a arweiniodd at 23 o argymhellion i'w gweithredu yn y tymor byr, canolig a hir. **Derbyniodd Llywodraeth flaenorol Cymru** yr argymhellion yn llawn.

Gydag achosion o **ryddhau dŵr gwastraff heb ei drin o orlifiadau storm**, mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn **galw am** fwy o gamau i fynd i'r afael â'r ffynhonnell llygredd hon, ac ym mis Chwefror 2026 **nododd Llywodraeth flaenorol Cymru gynigion** i ddiwygio'r diwydiant dŵr.

## Plannu coed

Mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn aml yn cyfeirio at egwyddor y goeden gywir yn y lle cywir i sicrhau bod y manteision yn cael eu cynyddu i'r eithaf. Canfu **Adolygiad Tystiolaeth Coedwig Genedlaethol yng Nghymru** y gellid cael y buddion mwyaf ar gyfer bioamrywiaeth wrth wella ansawdd coetiroedd, yn hytrach na chynyddu eu maint. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod mewn **erthygl Ymchwil y Senedd**.

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Mae amgylcheddwyr yn galw** i'r haenau Dewisol a Chydweithredu gael eu hariannu'n briodol fel bod ffermwyr yn cael eu cymell i gyflawni dros yr amgylchedd. **Dywed RSPB Cymru** fod yn rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fynd ymhellach i wrthdroi dirywiad rhywogaethau sydd dan fygythiad.

**Dywed Undebau Ffermio** y bydd cyflawni uchelgais y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn gofyn am gynnydd mewn cyllid o ddyraniad cyllideb 2026-27.

## Swyddi gwyrdd

**Mae’r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) wedi tynnu sylw** at fylchau capasiti yn y sector ecoleg.

Nod **Gwasanaeth Natur Cymru** yw creu mudiad cenedlaethol i ddarparu sgiliau a gwybodaeth sy'n seiliedig ar natur drwy addysg, hyfforddiant a gwirfoddoli, a gyflwynir drwy rwydwaith o bartneriaid lleol. Dywed **Cyswllt Amgylchedd Cymru** mai Gwasanaeth Natur Cymru yw’r ffordd y gallwn newid ein sgiliau, helpu pobl ifanc gyda swyddi ac ailhyfforddi’r rhai mewn diwydiannau anghynaladwy gyda llwybr clir at sgiliau sy’n fwy angenrheidiol nag erioed. **Mae Gwasanaeth Natur Cymru wedi galw ar** Lywodraeth Cymru i ymrwymo i fuddsoddi yn ei botensial hirdymor.

## Ariannu

Mae **adroddiad Llwybrau i 2030 Cyswllt Amgylchedd Cymru** yn pwysleisio’r angen am fuddsoddiad pellach i ariannu adferiad byd natur. Mae’r adroddiad hwn yn dadlau bod cyllid annigonol wedi achosi colled byd natur yn y gorffennol. Mae'n amcangyfrif bod **£158 miliwn ychwanegol y flwyddyn** yn ofynnol ar gyfer camau adfer natur priodol.

Mae **papur Cyllid Arloesol** ac **ymchwil i fecanweithiau ariannu arloesol** Cyswllt Amgylchedd Cymru yn nodi syniadau ar gyfer creu trethi, ardollau a chronfeydd o gynhyrchion neu brosesau llygredd, fel bod o leiaf rhyw fath o iawndal i'w ailfuddsoddi yn yr adnoddau naturiol.

# Atodiad - Ardaloedd gwarchodedig

## Mae'r adran hon yn cyfuno mathau gwahanol o ddynodiadau yng Nghymru i ddiogelu natur, a'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

**Ffigur 7: Palod ar arfordir Ynys Skomer, yn yr unig Barth Cadwraeth Forol yng Nghymru**



Mae **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** yn cael eu cydnabod am eu bywyd gwyllt pwysig a'u nodweddion naturiol (sy'n cwmpasu'r tir, môr a dŵr croyw) ac maent wedi'u gwarchod o dan adran 28 o **Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am ddynodi safleoedd fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rheoli safleoedd SoDdGA yn uniongyrchol ar dir y mae'n gyfrifol amdano, ac yn cynghori tirfeddianwyr/meddianwyr eraill ar safleoedd nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol. Yn 2025, roedd **1,083 o safleoedd SoDdGA** yng Nghymru.

Roedd **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** wedi'u dynodi'n wreiddiol o dan Gyfarwyddeb Adar yr UE, ond ar ôl ymadael â'r UE maent yn bodoli fel rhan o Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y DU o dan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**. Mae AGA yn gwarchod cynefinoedd rhywogaethau adar mudol a phrin neu dan fygythiad, megis barcudiaid coch, cudyllod bach, gweilch y pysgod a chwtiaid aur. Nodir AGA gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ystyried canllawiau dethol gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Gallant fod ar y tir neu yn y môr.

Roedd **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** wedi'u dynodi'n wreiddiol o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE, ond ar ôl ymadael â'r UE maent yn bodoli fel rhan o Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y DU o dan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**. Nod ACA yw gwarchod bioamrywiaeth drwy warchod dros 1,000 o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion rhestredig, yn ogystal â 200 o gynefinoedd. Gallant fod ar y tir neu yn y môr.

Y **Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol** sy'n disodli **Natura 2000** ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys holl safleoedd blaenorol Natura 2000 (SAC a SPA), yn ogystal â'r ACA a'r AGA newydd a ddynodwyd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Yr amcan yw darparu'r un lefel o amddiffyniad ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd dan fygythiad â rhwydwaith Natura 2000 yr UE, ac i hwyluso cydweithredu rhwng rhanddeiliaid.

Nod **Parthau Cadwraeth Morol** yw gwarchod ystod o gynefinoedd a rhywogaethau morol prin neu dan fygythiad. Mae Parthau Cadwraeth Morol yn disodli'r gwarchodfeydd natur morol blaenorol drwy **Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009**. Ar hyn o bryd, mae un Parth Cadwraeth Morol ym moroedd Cymru, sef **Parth Cadwraeth Morol Skomer**.

Mae **safleoedd Ramsar** yn wlyptiroedd gwarchodedig o dan **Gonfensiwn Ramsar UNESCO**. Nodir safleoedd Ramsar gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn cydweithrediad â'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae pob safle Ramsar hefyd yn safle SoDdGA.

Dynodir **gwarchodfeydd biosffer** gan UNESCO ac maent yn rhan o Rwydwaith Gwarchodfeydd Biosffer y Byd. Maent yn cael statws gwarchodedig drwy ddynodiadau eraill, megis SoDdGA. Ar hyn o bryd mae un Warchodfa Biosffer yng Nghymru, **Biosffer Dyfi**.

Dynodir **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol** gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan **Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949**, neu o dan **Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**. Heblaw am warchod natur, caiff ei dynodi hefyd at ddibenion ymchwil ac astudio. Mae pob Gwarchodfa Natur Genedlaethol hefyd yn safle SoDdGA. Caiff ei rheoli naill ai gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu gyrff gwirfoddol, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB, neu'r Ymddiriedolaethau Natur.

Mae **Gwarchodfeydd Natur Lleol** o ddiddordeb lleol yn hytrach na chenedlaethol, ac nid oes ganddynt ddynodiad statudol Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Cânt eu dynodi gan awdurdodau lleol. Maent yn cynnwys chwareli, camlesi neu gilffyrdd rheilffyrdd segur.

Mae dau gategori o ran **tirweddau dynodedig**: 'Parciau Cenedlaethol' a 'Thirweddau Cenedlaethol' (roedd Tirweddau Cenedlaethol yn cael eu hadnabod gynt fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol).

Caiff **Parciau Cenedlaethol** eu sefydlu o dan **Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949** ac mae ganddynt ddau ddiben statudol, sef cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd; a hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny. Mae cydbwyso cadwraeth a hamdden wedi'i ysgogi gan **egwyddor Sandford**, sy'n rhoi blaenoriaeth i gadwraeth dros hamdden pan fydd gwrthdaro anghymodlon. Sefydlodd **Deddf yr Amgylchedd 1995** Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n ofynnol i lunio Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol ac sy'n awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal.

Mae **Tirweddau Cenedlaethol** wedi'u dynodi o dan **Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000** ac mae ganddynt un diben statudol, sef cadw a gwella harddwch naturiol yr ardal. Nid oes ganddynt yr un lefel o ddiogelwch â Pharciau Cenedlaethol a'r awdurdod lleol sy'n gwneud penderfyniadau cynllunio lleol.